HSE LACORS gweithio gyda'n gilydd

Datganiad o ymrwymiad Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) a chyrff cynrychioli'r awdurdodau lleol

Mae'r datganiad hwn y cytunodd HSE a chyrff cynrychioli'r awdurdodau lleol arno fis Mehefin 2009 yn amlinellu'n hymrwymiad i wella safonau gwaith partneriaethol gan anelu at un nod cyffredinol – atal marwolaethau, anafiadau ac afiechydon ymhlith gweithwyr a'r rhai mae gweithgareddau diwydiannol yn effeithio arnyn nhw.

Rydyn ni'n ymrwymo i gydweithio i gyflawni pedwar amcan eglur er iechyd a diogelwch Prydain Fawr:

- cwtogi ar nifer y marwolaethau, anafiadau ac achosion o afiechyd sy'n ymwneud â gwaith;
- meithrin ymrwymiad a chydnabyddiaeth eang o hanfod iechyd a diogelwch;
- ysgogi'r rhai sy'n ymwneud â iechyd a diogelwch i helpu i gyflawni rhagor ym maes iechyd a diogelwch;
- gofalu bod y rhai sy'n methu â chyflawni dyletswyddau iechyd a diogelwch yn atebol.

Rydyn ni'n ymrwymo i gyflawni'r amcanion hyn trwy weithio mewn partneriaeth gadarn, dan reolaeth effeithiol, a fydd yn:

- cydnabod bod rhaid cadw'r ddysgl yn wastad rhwng blaenoriaethau lleol, rhanbarthol a gwladol gan hwyluso'r deilliannau gorau er cymunedau mwy diogel, cryfach a iachach;
- targedu a defnyddio adnoddau/arian yn effeithiol i'r blaenoriaethau sydd wedi'u pennu;
- cynllunio, llunio rhaglenni gwaith a chynnal hyfforddiant ar y cyd i ofalu y bydd modd cymryd camau a rhoi gwasanaethau'n effeithiol;
- cyfathrebu'n amserol a lledaenu gwybodaeth yn well ymhlith partneriaid;
- cydweithio â chyrff rheoleiddio eraill a budd-ddalwyr i wella iechyd a diogelwch gan gynnwys rhaglen iechyd, gwaith a lles;
- cydlynu gwaith gorfodi fel y bydd yn gyson ac yn effeithiol gan ledaenu gwybodaeth a data, hwyluso cyfiawnder a gweithio ar draws ffiniau gweinyddol;
- llunio cyngor, canllawiau, deunydd hysbysu, ymgyrchoedd, negeseuon ac arferion da;
- gweithio yn ôl 'safon Adran 18 ynghylch gorfodi'* erbyn mis Mawrth 2011;
- gofalu bod ein sylwadau'n cael eu hystyried mewn cylchoedd cyswllt, polisïau a phartneru lleol, rhanbarthol a gwladol;
- gofalu bod gwybodaeth yn cael ei rhoi i wleidyddion, uwch reolwyr ac ymarferwyr am benderfyniadau cylchoedd o'r fath a'u gwaith ym maes rheoleiddio.

* manylion drosodd

COSLA HSE LACORS promoting quality regulation Local Government Association WLGA • CLILC

LACORS gweithio gyda'n gilydd

Cydweithio er gwell deilliannau

Neges oddi wrth Judith Hackitt CBE (Cadeirydd HSE) a'r Cyng. Geoffrey Theobald OBE (Cadeirydd LACORS)

A ninnau'n llywio ar y cyd gyfarfodydd aelodau Bwrdd HSE ag uwch gynghorwyr Panel Llywodraeth Leol y Cymdeithasau Llywodraeth Leol, rydyn ni'n gwerthfawrogi'r cyfle mae'r cyfarfodydd hynny'n ei gynnig i drafod materion pwysig iechyd a diogelwch ym myd llywodraeth leol a gwladol. Gan fod cyfarfodydd wedi bod o les i'r ddwy garfan, rydyn ni wedi penderfynu ei bod yn briodol amlygu'n hymrwymiad parhaol i'r broses.

Mae un nod cyffredinol i bartneriaeth HSE a'r cynghorau – helpu i atal marwolaethau, anafiadau ac afiechydon sy'n ymwneud â gwaith. Mae'n dda gyda ni fod y nod hwnnw'n cyd-fynd â'r datganiad o ddiben Cyfundrefn Iechyd a Diogelwch Prydain Fawr. Mae'r bartneriaeth yn dal yn hanfodol o ran ein ffordd o weithio, gan ffurfio a chyflawni'n gwaith yn gyrff rheoleiddio iechyd a diogelwch. Mae'n hanfodol cyfuno'n hadnoddau i gyflawni blaenoriaethau gwladol, rhanbarthol a lleol.

Mae'r datganiad newydd yn helpu i ddiffinio sut bydd HSE a LACORS yn cydweithio i ofalu ein bod yn parhau i lunio a defnyddio dull synhwyrol o drin a thrafod iechyd a diogelwch yn y gwaith wrth weithio gyda chymdeithasau llywodraeth leol Cymru, Lloegr a'r Alban a'r cynghorau sy'n cyflawni gwaith iechyd a diogelwch, ac ar eu rhan. Dylai'r cynghorau gymryd rhan yn strwythurau llywodraethu'r bartneriaeth a chael eu cynrychioli ynddyn nhw gan gyfleu eu profiad a'u hanghenion fel y bydd gwell cydymffurfio ynghylch iechyd a diogelwch.

Mae'r datganiad o'n hymrwymiad hefyd yn adlewyrchu nodau safon newydd Adran 18 ar gyfer awdurdodau gorfodi – sy'n pennu sut gall swyddogion HSE a'r cynghorau gyflawni eu dyletswydd i ofalu bod trefniadau addas a chyson ar gyfer gorfodi. Mae'r safon yn amlinellu sut gallwn ni i gyd gyfrannu, ac mae'n hanfodol ynghylch gofalu bod pawb yn gweithio mewn lle diogel.

Bydd trefn dda sy'n canolbwyntio ar y gwir beryglon yn effeithio'n gadarnhaol ar gymunedau a chwmnïau lleol ac, mewn sawl achos, yn arbed arian er eu lles trwy ffyrdd mwy effeithlon o weithio. Dylai cynghorau ystyried sut gall maes iechyd a diogelwch wella lles eu cymunedau – o bosibl, yn rhan o gytundebau cyflawni lleol yng Nghymru, cytundebau deilliant unffurf yn yr Alban a chytundebau ardal leol yn Lloegr.

Mae partneriaeth reoleiddio gref HSE a'r cynghorau'n rhan annatod o'r strategaeth newydd a modd ei rhoi ar waith. Rydyn ni'n hyderus y byddwn ni'n cydweithio'n well fyth trwy ailddatgan ein hymrwymiad i'r bartneriaeth fel y gallwn ni wella iechyd a diogelwch yn y gwaith ymhellach.

Awdurdodau gorfodi – HSE a'r cynghorau

Mae'r cynghorau'n rheoleiddio iechyd a diogelwch mewn dros filiwn o weithleoedd sy'n cyflogi tua hanner gweithlu Prydain. HSE sy'n gyfrifol am y lleill.

Rôl awdurdod gorfodi yw gofalu bod y rhai ac arnyn nhw ddyletswydd yn cadw trefn ar beryglon yn y gwaith. Felly, dylai iechyd a diogelwch yn y gwaith fod yn elfen bwysig o gynllun corfforaethol pob cyngor.

Dyma'r prif sectorau mae HSE a'r cynghorau'n eu goruchwylio:

Cynghorau	HSE
Swyddfeydd	Ffatrïoedd
Siopau	Ffermydd
Gwestyau	Safleoedd adeiladu
Bwytai	Atomfeydd
Tafarnau/clybiau	Cloddfeydd
Cartrefi gofal	Ysbytai
Warysau	Safleoedd gwladol
Addoldai	Ysgolion/colegau

Safon Adran 18

Mae Adran 18 Deddf 'Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith' 1974 yn gofyn i HSE a'r cynghorau lleol sefydlu trefniadau gorfodi addas.

Mae Adran 18 ar ei newydd wedd yn pennu safon y trefniadau sydd i'w sefydlu. Rhaid i bob awdurdod gorfodi gydymffurfio â'r safon erbyn mis Mawrth 2011. Mae rhai pecynnau wedi'u llunio i ddibenion cydymffurfio – gweler www.hse.gov.uk/section18/

I gael rhagor o wybodaeth am y datganiad hwn, cysylltwch â naill ai HSE neu LACORS

Uned Awdurdodau Lleol HSE
Ffôn 0151 951 3114 · Ebost LAU.enquiries@hse.gsi.gov.uk
www.hse.gov.uk

LACORS
Ffôn 020 7665 3888 · Ebost info@lacors.gov.uk
www.lacors.gov.uk

LACORS/HSE, Mehefin 2009 · Wedi'i gyhoeddi gan LACORS, Tŷ Llywodraeth Leol, Smith Square, Llundain SW1P 3HZ